

# Campwaith dwyfol

“... ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys, ac ni chaiff holl bwerau Hades y trechaf arni.” (adn. 18)

## Beth am ddarllen Mathew 16:13–20 ac yna myfyrio

Ystyrir yr addewid y byddwn yn myfyrio arni heddiw fel un o addewidion mwyaf ein Harglwydd. Ac mae rheswm da dros hynny.

Mae pobl yn gofyn: All yr Eglwys oroesi yn ystod yr unfed ganrif ar hugain? Wel, all neb fod yn sicr ynglŷn â dyfodol unrhyw adeilad eglwysig, ond o ran y corff, sef y rhai a achubwyd o'r holl ghenhedloedd ar y ddaear, yna mae'r ateb yn ddigon eglur: mae'n anorchfygol ac yn anniniol. Mae ein Harglwydd wedi addo hynny. Does dim lle i amau mwyach: mae'r Eglwys yn aros lle mae, mewn amser ac yna yn nhragwyddoldeb.

Yn ôl un awdur, gall y term 'Eglwys' (*ekklesia* yn y Groeg) yn y Testament Newydd olygu unrhyw beth o 'dyrfa gosmig i gwpl cynulleidfaol'. Gall olygu y corff cyfan o gredinwyr – rhai ar y ddaear a rhai yn y nefoedd – a gall hefyd olygu grŵp lleol o Gristnogion, a all gynnwys dau berson yn unig (gweler Math. 18:20). Nid adeilad Gothig, tal gyda ffenestri gwydr lliw a chlerigwyr mewn gwynwisgoedd ydy gwir Eglwys Iesu Grist. Dyna'r tŷ lle mae'r Eglwys yn addoli ynddo. Mae'r Eglwys yn cynnwys dynion a merched y mae eu calonnau wedi'u golchi yng ngwaed Crist.

Disgrifiodd y pregethwr Tom Rees yr Eglwys fel y “Campwaith Dwyfol”. Dywedodd Paul yn Effesiaid 5:27 y byddai Crist ryw ddydd yn cyflwyno'r Eglwys iddo; i hun “yn ei llawn ogoniant, heb fod arni frycheuyn na chrychni na dim byd o'r fath”. Yna bydd ein Harglwydd yn syllu ar ei gampwaith â llawenydd a hyfrydwch am byth.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Actau 20:28; Gal. 1:11–24; Eff. 1:22–23; 3:1–13; Col. 1:15–20

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae Paul yn cyferbynnu ei fywyd blaenorol â'i fywyd presennol?
2. Beth ydy natur a phwrpas yr Eglwys?

## Gweddi

O Dad, dyna gysur ydy pwyso ar yr addewid yma y bydd dy Eglwys, waeth sut fydd hi'n cael ei herlid a'i gormesu, yn bodoli am byth. Rwy'ti wedi addo hynny. Dw i'n pwyso ar yr addewid yma yn llawen ac yn ddisgwylgar. Amen.